

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a
Seilwaith

SeneddClimate@senedd.cymru

3 Rhagfyr 2021

Annwyl Llyr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd 2021 ynglŷn â gollyngiadau carthion o ddraeniau stormydd a Deddf yr Amgylchedd 2021.

Rydym yn defnyddio dull o wella ansawdd dŵr sydd fwyaf addas ar gyfer yr amgylchiadau penodol yng Nghymru, ac nid hwn o reidrwydd yr un dull ag sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr.

Mae effaith llygredd ar ansawdd ein hafonydd ledled Cymru yn destun cryn bryder imi, ac rwyf wedi ymrwmo i fynd i'r afael â'r achosion. Mae diogelu a gwella ein hamgylchedd dŵr yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, ac eleni rydym wedi sicrhau bod bron i £10 miliwn ar gael ar gyfer gwella ansawdd dŵr.

Nid gollyngiadau o ddraeniau stormydd cyfunol yw prif achos ansawdd dŵr gwael yng Nghymru – y prif achosion yw dŵr ffo o wastraff anifeiliaid a chemegau a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, llygredd o fwyngloddiau segur, dŵr ffo o ardaloedd adeiledig, a phibellau carthion wedi'u cysylltu â rhwydweithiau draenio'n anghywir. Rwyf wedi amgáu crynodeb yn atodiad 1.

Mae'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer gollyngiadau o ddraeniau stormydd yn cael eu rheoli gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, sy'n amlinellu'r fframwaith cyfreithiol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ganiatáu gollyngiadau i'r amgylchedd dŵr. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau unrhyw fater gwenwynig neu niweidiol, llygredd, gwastraff neu unrhyw elifion masnach neu garthion i gyrff dŵr. Rôl CNC yw pennu a rheoleiddio trwyddedau amgylcheddol ar gyfer draeniau stormydd. Mae'r rhain yn cynnwys amodau sy'n cyfyngu ar pryd y caiff y draen weithredu, a hefyd mae angen mesurau fel sgriniau i atal carthion rhag dianc.

Mae CNC yn gweithio'n strategol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat ar reoleiddio gollyngiadau carthion, cynllunio'r buddsoddiadau sydd eu hangen mewn seilwaith carthffosiaeth, a monitro perfformiad cwmnïau. Mewn dalgylchoedd trawsffiniol, mae gan dimau gweithredol CNC drefniadau cyswllt lleol ar waith gyda chydweithwyr yn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae CNC yn cydweithio â'r cwmnïau dŵr ac yn adolygu eu rôl fel rheoleiddiwr mewn perthynas â phob ased yn barhaus. Maent yn datgan y byddant yn defnyddio eu pwerau i fwrw ymlaen â gwaith gwella os bydd angen gwneud hynny. Mae CNC wedi cyhoeddi hysbysiadau gorfodi lle maent yn teimlo nad yw'r gwaith sydd ei angen yn cael ei wneud. Wrth i ragor o ddata gael ei gasglu a'i rannu gan y cwmnïau dŵr, bydd CNC yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau yr ymdrinnir â diffyg cydymffurfio â thrywyddedau yn briodol.

Mae'r gofynion yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnwys ffocws penodol ar ddraeniau stormydd cyfunol, ond mae angen inni ddefnyddio dull cyfannol o sicrhau atebion cynaliadwy sydd nid yn unig yn gwella ansawdd dŵr, ond hefyd yn cefnogi ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, gwella bioamrywiaeth a chyflawni sero net.

Mae'r cwmnïau dŵr yng Nghymru eisoes yn adrodd ar berfformiad draeniau stormydd, ac yn cyhoeddi gwybodaeth lawn ar eu gwefannau fel ei bod ar gael i'r cyhoedd. Mae rhybuddion amser real ar gael mewn safleoedd ymdrochi dynodedig allweddol ac mae hefyd yn ofynnol iddynt ddarparu crynodeb o'r data ar ollyngiadau i CNC bob blwyddyn.

Mae CNC yn datblygu Map Ffordd ar gyfer draeniau stormydd yng Nghymru. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, a'r ddau Gwmni Dŵr, maent yn datblygu argymhellion sydd â'r nod o fynd i'r afael ag effeithiau gollyngiadau o ddraeniau stormydd ar afonydd Cymru. Mae'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan Gadeirydd CNC ac Ofwat. Byddai CNC yn hapus i rannu manylion y gwaith hwn â chi wrth i'r camau terfynol nesáu.

Bydd y Cynlluniau Rheoli Draenio a Gwastraff anstatudol cyntaf yn cael eu cyhoeddi gan y cwmnïau dŵr yn 2022. Bydd y cynlluniau newydd hyn yn sicrhau rhagor o weithredu i helpu cwmnïau carthffosiaeth i fynd i'r afael yn well â'r risgiau y gall rhai asedau carthffosiaeth, megis draeniau stormydd, eu hachosi i'r amgylchedd.

Bydd y rhain yn amlinellu cynllun tymor hir a thymor byr i leihau'r gollyngiadau o ddraeniau stormydd cyfunol ac unrhyw niwed amgylcheddol ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau gwell ar gyfer trin carthion, capasiti uwch ar gyfer storio a ffyrdd naturiol, ecogyfeillgar o leihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth. Dylid defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i ddargyfeirio cymaint o ddŵr wyneb â phosibl i ffwrdd o'r systemau carthffosiaeth, drwy reoli dalgylchoedd. Yn aml, mae angen cydweithredu aml-sector ar y prosiectau hyn, er mwyn sicrhau nad yw dalgylch yn llethu capasiti seilwaith cwmni dŵr.

Rwy'n bwriadu gwneud Cynlluniau Rheoli Draenio a Gwastraff yn statudol yn ystod tymor y Senedd hwn, gan ddefnyddio pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Byddaf yn ymgynghori ar reoliadau sy'n amlinellu ffurf a chynnwys y cynlluniau hyn.

Mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi cymryd camau drwy wneud systemau draenio cynaliadwy (SDCau) yn orfodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau adeiladu newydd, ac annog cwmnïau dŵr ac awdurdodau lleol i ôl-osod eu rhwydweithiau dŵr a gwastraff dŵr presennol â systemau draenio mwy cynaliadwy. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith o garthffosydd drwy dargyfeirio ac arafu cyflymder y dŵr wyneb sy'n dod i mewn i'r rhwydwaith – gan sicrhau mai dim ond fel dewis olaf y defnyddir draeniau stormydd cyfunol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad penodol i wella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer SDCau er mwyn darparu manteision ychwanegol ar gyfer ein cymunedau mewn perthynas â'r amgylchedd, bioamrywiaeth, lles a'r economi.

Rhwng 2020 a 2025 mae Dŵr Cymru yn buddsoddi £101 miliwn i uwchraddio eu rhwydwaith rheoli gwastraff, er mwyn lleihau gollyngiadau i ddyfrffyrdd, fel rhan o becyn buddsoddi ehangach o £765 miliwn i ddiogelu'r amgylchedd.

Mae hyn yn cynnwys buddsoddi £42 miliwn yn y Fframwaith Asesu Draeniau Stormydd a fydd yn nodi asedau gwastraff ar gyfer gwella. Bydd hyn yn gwella gwerth cyrsiau dŵr fel amwynder ac ansawdd dŵr yn gyffredinol. Bydd CNC yn helpu i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cael ei dargedu'n briodol fel bod y fframwaith yn cyd-fynd ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dros yr un cyfnod bydd Hafren Dyfrdwy yn buddsoddi bron i £17 miliwn i wneud gwelliannau i wastraff a'r amgylchedd, gan gynnwys £7.6 miliwn ar wella ansawdd dŵr afonydd, a £3.3 miliwn ar wella'r rhwydwaith gwastraff a safleoedd trin gwastraff.

Mae gwaith monitro a samplu ansawdd dŵr ymdrochi yn cael ei gynnal yn yr holl ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru rhwng 15 Mai a 30 Medi. Eleni, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bodlonodd Cymru 100% o'r safonau ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi, gydag 85 o'r 105 o ddyfroedd ymdrochi yn ennill statws 'rhagorol'.

Mae dŵr glân ac amgylchedd iach yn hanfodol ar gyfer bywyd yng Nghymru ac mae mynd i'r afael â llygredd yn flaenoriaeth. Adlewyrchir hyn yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, sy'n ymrwymo i ddynodi dyfroedd mewndirol ac atgyfnerthu'r gwaith o fonitro ansawdd dŵr.

Yn gywir



Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Atodiad 1

- i. Nod Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cymru a Lloegr) 2017 yw lleihau llygredd a gwella cyflwr ecosystemau dyfrol, hyrwyddo defnyddio dŵr mewn modd cynaliadwy a lleihau effeithiau llifogydd a sychder. Maent yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i atal cyrff dŵr rhag dirywio ac i sicrhau bod pob corff dŵr yn ennill statws da erbyn 2027. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae CNC yn dweud bod angen rhaglen waith gwerth miliynau o bunnoedd ledled Cymru rhwng nawr a 2027, er mwyn i bob un o'r 942 o gyrff dŵr yng Nghymru ennill statws ecolegol da erbyn 2027.
- ii. Mae gan CNC ddyletswydd statudol i asesu ac adrodd ar statws pob corff dŵr yng Nghymru, ond mae manteision y gwaith hwn yn ehangach o lawer. Mae'n ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar gyfer ein Hadroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac yn ddangosydd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- iii. Mae CNC yn paratoi Cynlluniau Rheoli Basn afon ar gyfer pob un o'r tair ardal basn afon yng Nghymru (Gorllewin Cymru, Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren). Maent yn ymdrin â'r materion sy'n effeithio ar statws ansawdd dŵr ac maent yn cael eu diwygio a'u cyhoeddi bob chwe blynedd – bydd y gyfres nesaf o gynlluniau yn cwmpasu'r cyfnod 2021–2027. Maent wedi nodi'r pum ffactor allweddol canlynol sy'n atal y cyrff dŵr hyn rhag ennill statws da:
 - a) **Mae 241 o gyrff dŵr yn methu o ganlyniad i addasiadau ffisegol (mae 113 yn methu o ganlyniad i ffermio ac 16 o ganlyniad i goedwigaeth)** – Newidiadau artiffisial a wnaed gan bobl i afonydd, llynnoedd, aberoedd a'r arfordir sy'n newid maint a siâp cynefinoedd naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud sianeli'n syth mewn modd artiffisial i helpu mordwyo neu i reoli perygl llifogydd, strwythurau sydd wedi'u cynllunio i leihau perygl llifogydd, strwythurau rheoleiddio llif i greu cronfeydd dŵr, argaeau a choredau, neu weithgareddau rheoli tymor byr fel carthu neu dynnu llystyfiant.
 - b) **Mae 129 o gyrff dŵr yn methu o ganlyniad i lygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig – o'r rhain mae 113 yn methu o ganlyniad i ffermio ac 16 o ganlyniad i goedwigaeth.** Mae amaethyddiaeth a choedwigaeth fasnachol yn gorchuddio 79% a 14% o arwynebedd Cymru yn y drefn honno. Gall arferion amhriodol neu hen ffasiwn sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth arwain at lefelau uwch o waddodion, asidedd, metelau, maethynnau, chwynladdwyr a phlaladdwyr sy'n mynd i mewn i ddŵr daear a dŵr wyneb. Mae'r llygryddion hyn yn niweidio pryfed, pysgod a phlanhigion yn y dŵr. Mae defaid a gwartheg yn cynhyrchu lefelau sylweddol o wastraff a all effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd a llygru cyrsiau dŵr.
 - c) **Mae 101 o gyrff dŵr yn methu o ganlyniad i lygredd trefol** – Gall ardaloedd trefol lygru dŵr mewn sawl ffordd, o ddraeniau dŵr wyneb i ollyngiadau carthion preifat a phibellau sydd wedi cael eu cysylltu'n anghywir. Mae cyfuniad o bibellau carthffosiaeth o gartrefu ac adeiladau busnes a thanciau septig ac offer trin preifat sydd wedi cael eu cysylltu'n anghywir, ynghyd â dŵr glaw sy'n cronni o arwynebau artiffisial fel toeau adeiladu, ffyrdd a phalmentydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at y gwahanol mathau o lygredd dŵr yn ein trefi a'n dinasoedd. Mae hyn yn cynnwys llwch/graeau, olew, glanedyddion, metelau, halen ar y ffyrdd, bacteria o ysgarthion anifeiliaid a gronynnau eraill sy'n cael eu casglu drwy systemau draenio dŵr wyneb,

neu'n mynd yn uniongyrchol i nentydd a llynnoedd lleol o ddraeniau lleol. Mae hyn yn effeithio ar afonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol.

- d) **Mae 74 o gyrff dŵr yn methu o ganlyniad i garthion a dŵr gwastraff** – Mae llawer o faethynnau (fel ffosforws a nitradau), amonia, metelau a sylweddau niweidiol eraill, gan gynnwys firysau a bacteria, yn mynd i mewn i'r system garthffosiaeth. Mae'r rhain yn cael effaith andwyol ar gynefinoedd ac yn cael effaith sylweddol ar y dŵr rydym yn ei ddefnyddio. Mae gollyngiadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio a charthffosydd o dan wyneb y tir sy'n gollwng yn peri llygredd i adnoddau dŵr daear. Mae llygryddion yn mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr drwy ollyngiadau o waith trin carthion a charthion yn gorlifo (naill ai wedi'u trin neu heb eu trin). Yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb, mae draeniau stormydd hefyd yn cyfrannu at yr effaith. Mae'r ffyrdd mae'r cyhoedd yn camddefnyddio'r system garthffosiaeth yn cynnwys cael gwared ar gemegion niweidiol, brasterau, olew, saim a deunyddiau fel clytiau gwlyb yn y rhwydwaith carthffosydd.
- e) **Mae 60 o gyrff dŵr yn methu o ganlyniad i fwyngloddiau metel segur** – mae tua 1,300 o fwyngloddiau metel segur yng Nghymru. Mae glawiad, dŵr wyneb a dŵr daear yn llifo drwy'r gweithfeydd segur, gan amsugno metelau ac yn gwneud llawer o'r gollyngiadau'n asidig. Mae hyn yn cael effeithiau amgylcheddol difrifol – mae'r metelau yn gwenwyno'r dŵr ac yn lladd bywyd ynddo. Amcangyfrifir bod y broblem hon yn yn effeithio ar dros 600km o afon, ac mae naw o'r deg dalgylch metel gwaethaf yn y DU yng Nghymru. Maent yn un o brif achosion methu safonau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru